

Tawelu'r dyfroedd

“Bu cymaint cynnen rhyngddynt nes iddynt ymwahanu.” (adn. 39)

Beth am ddarllen Actau 15:36–41 ac yna myfyrio

Yr ydym am edrych yn awr ar yr anghytundeb a fodolai rhwng Barnabas a Paul – anghytundeb a allai fod wedi arwain at ffurfio dau enwad, ond ar gyfrif yr aeddfedrwydd ysbrydol oedd yn eglwys Antiochia, sicrhawyd nad hyn fyddai'r canlyniad. Wedi i Barnabas a Paul ddychwelyd o'u taith efengylu yn Cyprus ac yn Asia Leiaf, roedd Paul yn ymwybodol o alwad Duw i ddychwelyd i rai o'r trefi lle roeddent wedi pregethu'r Gair, er mwyn gweld sut oedd yr eglwysi yn dod ymlaen. Yr oedd Barnabas yn cytuno, gan awgrymu y dylent fynd â Ioan Marc yn gydymaith. Nid oedd Paul yn credu fod hyn yn beth doeth, gan roi fel rheswm y ffaith fod Ioan Marc wedi eu gadael yn Pamffylia. Roedd y fath wahaniaeth barn yn bodoli fel y bu i'r ddau wahanu. Aeth Paul y naill ffordd, a Barnabas y ffordd arall. Roedd Paul yn teimlo y dylent ddiogelu tîm cryf gydag aelodau oedd eisoes wedi eu profi eu hunain, a pheidio â chynnwys pobl oedd yn debygol o droi yn ôl. Roedd Barnabas yn teimlo y dylid rhoi ail gyfle i bobl.

Nawr, nid fy nymuniad yw ychwanegu at yr Ysgrythur, ond ai rhywbeth fel hyn y bu'r drafodaeth: Paul: “Mae'n amhosibl mynd â phobl ar ein teithiau cenhadol sydd ddim yn barod i wneud y gwaith. Rhaid i ni gael pobl sydd yn ymroddgar, pobl sydd, pan mae gwrthwynebiad yn codi, yn barod i sicrhau'r gwaith yn hytrach na'i adael.” Barnabas: “Ni ddylem dorri calon pobl. Mae gan bawb hawl i ail gyfle.” Gallai'r safbwyntiau yma fod wedi achosi gwahanu a sefydlu dau enwad: un, yr enwad Pawlaidd (y rhai oedd eisiau diogelu purdeb), ac yna yr enwad Barnabaidd (y rhai oedd yn cynnig ail gyfle). Wrth i Paul a Barnabas wahanu, bu i'r eglwys yn Antiochia ddiogelu mesur o ysbryd hunanfeddiannol. Doedd yna neb yno wedi cymryd y naill ochr na'r llall. Mae'n debyg bod yr eglwys yn rhy ysbrydol i ymbleidio ac roedd yr eglwys yn ei hunan yn tawelu'r dyfroedd.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Diar. 15:1; 30:33; Math. 5:9; Rhuf. 14:1–23

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut all anghytundeb godi?
2. Beth sydd yn tawelu'r dyfroedd?

Gweddi

O Dad, yr ydym yn ymwybodol y buasai llawer rhwyg a gwahanu wedi eu hosgoi petai ysbryd pobl Antiochia yn cael ei arddangos yn ein bywyd ni fel Eglwys. Maddau i ni ein diffyg sensitifrydd. Yn enw Iesu. Amen.